

Geiriau / Lyrics

1. Straeon y Cymdogion

Mae'r trydan wedi mynd,
Tra mai'n fore yn Honalulu.
Cwyr yn toddi i'r sosar,
Gwyneba yn y fflam.

Gwyddbwyll yw yr unig gêm,
I rwystro'r dychymyg rhag chwyddo.
Straeon y cymdogion,
Yn chwerthin ar fy mhen efo echo ar ei ben.

Bwgan yn chwara'r sosban,
A finna isho berwi dŵr.
Gwyfyn yn dawnsio'n y fflamau,
Anghenfil ar y wal.

Gwîn coch yw yr unig mêdd,
I rwystro'r dychymyg rag chwyddo.
Straeon y cymdogion,
Yn chwerthin ar fy mhen efo echo ar ei ben.

Heno mi gysgaf efo chdi,
Yn ein ngwely clyd.
Dwi wedi edrych o dan y gwely,
A does na'm byd.

Caru yw yr unig ffordd,
I gadw'r ysbrydion o'n coïa.
Straeon y cymdogion,
Ma'ch cega chi di cau felly gadwch i ni'n dau.

2. Rhosyn rhwng fy nannadd

*Gai Toms
Gary Richardson
Philip Lee Jones*

Allai ddim bod ynghanol y ffordd,
Cos ma mhen i yn y cae.
Dwi'm yn gallu cerdded ar y llinell syth gwyn,
Cos dwi rhy 'ycin chwil.

Lawr mewn rhyw dafarn yng nghefn, cefn gwlad!
Nes i g'farfod rhyw hogan a rhosyn yn ei gwallt,
Ond yn sydyn daeth diethryn ai chwipio i ffwrdd
Gan adael ei rhosyn tlws coch ar y bwrdd

**O Mor dlos oedd hi'n gwisgo coch,
Dwi yn y ffos a fy ffon yn y mwd,
Yn y nos, disglair yw y ser,
Gorwedd yn yr afon efo'i rhosyn rhwng fy nannadd.**

Pam ydw i mor racs-jibides?
'Di oriau cau yn fama ddim yn gwneud llawer o les.
Pam bo'r genod gora efo rhosod yn eu gwalltia,
Wastad yn mynd adra efo hogia catalogia?

Aeth Juliet am Romeo am ei Alpha Romeo?
Gwrandda fan hyn fy Venus de Milo,
Neith o mond toddi dy galon fel caws mozzarella,
Ond ddoi a dy rosyn yn ol efo'f athroniaeth Cindarella.

3. Arwain i'r môr

Ti dal i ofyn lle mae'r afon yn mynd,
Ista mewn cwrgl a'i adael o fynd efo'r lli a disgyrchiant.

A gobeithio y gei di hwyl,
A cofia badlo neu mi fyddi di'n chwil ac yn sal wrth droi a throi.

**Mae'n arwain i'r mor
Mae'n arwain i'r mor o hyd.**

Ac ar dy daith falla gei di dy ddal,
Mewn storm neu dy losgi gan yr haul ond dal dy ben i fynd.

*Pen i fyny, pen i fyny.
Pen i fyny, pen i fyny.
Pen i fyny, pen i fyny.
Pen i fyny, pen i fyny*

Mae'n arwain i'r mor.....

Ti yn yr aber a ti'n cysgu'n dyn,
Yn breuddwydio am fodolaeth dyn, ac o le y daethom ni.

Mae'n arwain i'r mor.....

4. Cwmorthin

Ma'n enw i wedi'i grafu,
Efo hoelan wedi rhydu,
Ar y llechan lās.

Mae o'n lechan ti'n gallu eistedd ar,
Efo d'abwyd a dy enwair
A'i thafu hi i'r dwr.

**Yna chwarae efo'r awel tan mae rhywbeth yn
tynnu/bachu
Os does na'm byd yn tynnu/bachu
Wel tynna hi fewn a tria eto.**

Gewch chi alw fi yn ramantydd,
Ond mae gwell gen i y nentydd
Sy'n cosi'r llethra.

Ma o'n gwneud i ti sylweddoli,
Bod na fwy i'r bywyd hwn,
Na Coca Cola.

*'A thra bo dwr y mor yn hallt,
A thra bo ngwallt i'n tyfu,
A thra bo hiraeth yn fy mron'*

Doi nol i Gwmorthin,
Ble ma'n enw i wedi ei grafu,
Ar y llechan lās.

5. O le ga'i eda?

Ben bore yn Sir Benfro,
Wedi noson yn y fro,
Meddwl bodio i Ben Llyn am y crac.
Awen Aberdaron
Yn galw ama i,
Ond rhaid gwlychu fy ngweflau gynta.

A cyn dwi'n cychwyn siwrna, rhaid gwario chydig mae'n siwr
Mae'n teimlo fel bo neithiwr wedi rhwygo'n waled i
Mae'r dafarn efo nydwydd ond sdim eda ma i mi

O le ga'i eda?

Wedi bod yn crwydro,
Gwario efo cymeriadau,
Es i heibio Ystrad Fflur ar fy nhaith.
A codi'n het i'r ywen,
Ble mae Daf ap yn gorffwyso,
Gan obeithio y ca'i ysbrydoliaeth.

A thra dwi ar fy siwrna, na'i wario mwy ma'n siwr.
Mae'n teimlo fel bo'r arian wedi gwisgo fy mhocedi,
Mae'r dafarn efo nydwydd ond s'dim eda 'ma i mi.

O le ga'i eda?

Mi a'i ymlaen o fama,
Efo'm credyd yn fy sana,
Yn glôff a'm mawd i yn yr haul.
Lwc mul oedd y bas drwy Feirion ac Eifionydd,
Gan deiliwr gorau Llanhelhaearn.

A wedi trwshio'n nhylla, A wedi noson yn Llyn,
Mae'n teimlo fel bod neithiwr wedi rhwygo'n waled i,
Mae'r dafarn efo nydwydd ond s'dim eda 'ma i mi.

6. Y Penblwydd

*Cerdd - Dewi Prysor
Alaw – Sian James
Syniad – Gai Toms*

Pryd mae dy benblwydd, fy mawnog ddi-ddarfod,
Ti sydd â'r glaw a'r haul yn dy fru?
Pan gerddodd y gwynt dros ruddiau Arianrhod
Y'm ganwyd, o'r ddrycin i'r erwau hy.

Pryd mae dy benblwydd, fy mynydd o gaerau,
Ti sy'n gadernid uwch corysdyd y ffin?
Pan drodd yr eryrod yn adar gaeafau,
O bair y byd arall dychwelais i'r drin.

Pryd mae dy benblwydd, ddiodefwrraig anrheithiau,
Ti sydd â'r wayffon gam yn dy gefn?
Pan wylodd fy ngwaed i Edwy dan lafnau
Y brad, o'r dyfroedd fe'm ganwyd drachefn.

Pryd mae dy benblwydd, f'arwres fawrgan,
Ti roddodd Sele yng ngheubren y gau?
Pan gododd fy llusern dros ael darogan
Fe'm denwyd o'r gwyll i'r bore brau.

Yr wyf yn yr awel a'r rhaeadr melyn,
Y dderwen, yr eog a'r hedydd gwyn;
Y mae fy mhenblwydd bob eiliad o'r flwyddyn;
Â phob curiad o'th galon, cofia hyn.

7. Da Da Sur

Gai Toms a Philip Lee Jones

Hei cariad be sy' bod?
Os na rhywyn di dy frifo di?
A be ti dda yn y gomel pell?
Dyla bywyd i'm fod mor ddu.
Ia hawdd ydi mynd ar y pop,
I leddfu'r boen ar cur.

Elli di ddim cael y da heb y drwg, Mae o fatha byta da da sur.

Cwyd dy ben a dangos dy wên,
Ma na ola os ti'n agor y drws.
Bydd y cwmwl yn mynd a fydd yr awyr yn las,
Yr haul deffro o'i gwsg.
Ia hawdd ydi chwalu dy ben,
Anodd ydi bod yn bur.

Ydi mae y bywyd hwn yn gallu bod yn gas, 'Di petha weithia ddim yn deg. Mae rhai yn i chael, yn chael hi'n well na'r lleill, Ond felly mae'r byd yn troi, Hei paid a ffoi tyrd yn ol cariad. Elli did dim cael y da heb y drwg, Mae o fatha byta da da sur

Hei cariad cofia hyn
Pan mae rhywbeth yn dy boeni di
Tydi o ddim mor hawdd a du a gwyn
Dwi mond yn trio helpu
Ia hawdd i mi ddweud hyn
Ond mae'n addas i'r achlysur

Ydi mae y bywyd..... Pasia'r halen na o dy flaen Llyfa dy law a'l roi o mlaen 123 a Jose Guervo stwffia'r lemon na yn dy geg. Mae o fatha byta dad a sur!

8. Sunshine Dan

Dwi'n cofio'r Buckley's, yn dod yn ol o de Lloegr,
A'i beiciau mynydd caribinas a'i sgiliau ar ben tō.
Roeddyn nhw yn nabod teulu, ochr arall i'r grîb,
Un o'r rheini – oedd Sunshine Dan.

Sunshine Dan.

Ond rwan ma di tyfu, tua run un oed a ni. / Ymunodd efo'r
hogia chwarae congas tan mae'i draed mawr yn gwaedu,
Dim egni negatif, cadw'r faib i fynd,
Ffotosynthesis – gan Sunshine Dan.

Un noson yng Nghaerdydd, r'ol bod yn stiwdio yn recordio,
Hoffman yng Nghlwb lfor Bach, Hoffman yn ein penna' ni,
Dan a mi yn mynd ar goll, "Wheres Cyfathra Street?"
Atab hollol dwl, gath Dan a mi.

Un dred hir yn tyfu o'i ben,
Croen gafr gwyllt ar ei fongo pren,
Pa blydi srcas ti di dod o man? – Sunshine Dan.

Rwan mae o di teithio'r byd, ar gefn ei feic ar ben ei hun,
Eat your heart out Che Guevara, ond nai godi'n het i ti hefyd
fy ffrind.
Iseldir ac ucheldir o Sbaen i Kazakstan,
A freewheelio lawr i wlad y Kangaroo.

9. Las Vegas a'r lannau'r Wnion

Hapus yw'r dyn wrth y bwrdd,
Yn gwenu fel cath ac yn llywio fel hwrdd.
Ei bocedi yn canu ac yn drwm,
A golwg galarus ar yr hogia sy'n llwm.

Fe ddelir tri cerdyn yr un,
I'r chwaraewyr dichellgar a'i llygatau tyfn,
Mae'r rhai a llaw da yn rhoi gwen,
Ond y campwr yw'r gorau am chwarae y gem.

Las Vegas ar lannau'r Wnion.

Hongian a syllu y pres,
Ia'r merched yn gwylio ac yn dwad yn nes,
A'r llipryn sydd yno mor wan,
A golwg bach tila fel dryw di cael cam.

Y brenin, frenhines a'r jac,
Mae'r ace of spades yng nghanol y pac.
Llaw weddol un dda neu un ddrwg,
Mae'r joker dal i chwerthin drwy'r chwarae ar mwg.

Royal flush sigaret a wisgi bach slei,
5 high, drwy y drws, mae'n braf ar rhai.
Beth bynnag di'r gem wel cyfra fi fewn,
Mae gen i awydd rhoi gambl ar fy noda mawr tew.

10. Gwe Pry Cop Tom

Pan mae Tom yn mynd i ffwr mae o wastad run peth,
Mae o'n cynnig ei dy, i bawb yn y lle.
Ryw hen swyddfa chwarel yn y coed ger yr afon,
Ond rwan mae Ceunant yn dy i Tom.

Pan fyddwch yn mynd yno i fanteisio ar hyn,
Peidiwch meiddio herian gwartheg Mr Pearson,
Ac er bod Tom yn eitha glan,
Mae o'n cadw'r gwe pry cop sydd uwchben y lle tan.

Peidiwch a llau Gwe Pry Cop Tom.

A phan ewch i lawr i Ceunant yn hwyr yn y nos,
Mae'r gwyfynod yn y coed a ma na rwbath yn y ffos,
Ac yn ol bob son, yn ol y cymdogion,
Mae na ysbryd ceffyl a trol ar y lon.

Ac os welwch gi gwyn cewch lwc a bendith,
Ond os gwelwch gi du mae na felltith ar y ffor.
Cewch felltith gwaeth pan fu Tom yn dychwelyd,
A darganfod bod y gwe pry cop wedi mynd! felly.....

Peidiwch a llau.....

Cafwyd barti gwyllt, ia parti am ddyddia,
Ond sgwrfa dda ar y diwrnod ola.
Sgwrio'r ty o'r gwaelod i'r top
Yn cynnwys taro clytiau ar y gwe pry cop!

"O na" medda rhai, be da chi di neud.
"D'achi heb glywed be ma Tom wedi ddeud?"
Dyma'r drws yn agor, a fano oedd Tom!
Sgrialodd bawb o'r neilltu drwy'r ffenestri fel bom.

11. Si Hei Lwli Sali

Si hei lwli Sali, cysga yn dy grud,
Sgen ti'm byd i'w boeni am
Dim byd yn y byd

Fy maban tlws, yn dy gwsg mewn cotwm gwyn,
A fel mae'r byd yn troi a throi
Aros mae fy nghariad o hyd

Si hei lwli Sali, ti'n wyrth o fewn dy hun,
Cysga cysga mabi bach
Tan daw di'n ddihun

Breuddwydion tlws, yn dy gwsg ti'n gwenu tu mewn.
Ac fel mae'r byd yn troi a throi,
Wyt ti yn ei werth o, i gyd.

12. wbanCrw

imi ese ama odro i efyne, erge y illi
anga eithio-ob ynubry wbanCrw nny arsbu.
ondo ediwe imi erddedge yry ollho orffo
oedd-do amna unu wbanCrw ondo ancra nny eie ele.

wbanCrw, wbanCrw,
wimdw isho-i ancra,
wbanCrw, imdi ondo wbanCrw!

Esge i wcfw o aeffra nny opsio, eforef ynasddy
ampa, ampa oesdo imddi wbanCrw yma-y?
"aema-ana ancra eune acrellma eshffre orebo ama
oso idi einahem imddi nny esiole, elwe wciaiffw omao!"s

wbanCrw, wbanCrw,
wimdw isho-i ancra,
wbanCrw, imdi ondo wbanCrw!

ediwe imi aelga yfy omisio, nny efyne
ychcy-ynaiswy nny olo, ebhe wbanCrw i ede.
aenma aidrha yfy odmo ediwe amca-erydgym,
wbanCrw ama ancra a ancra ama wbanCrw o windw -
onco-iwsdffw.

laith – backslang Blaenau Ffestiniog
Language – Blaenau Ffestiniog backslang

Ysbrydoliaeth gan Chris Bach!
Inspiration from Chris Bach